

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

6 Ebrill 2017

Annwyl Ysgrifennydd Cabinet

Diolch ichi am gytuno i ddod i gyfarfod y Pwyllgor ddydd Mercher 14 Mehefin rhwng 9.30 ac 11.00.

Prif ddiben y sesiwn yw cynnal gwaith craffu cyffredinol ar y meysydd hynny yn eich portffolio sy'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor. Hoffai'r Pwyllgor ganolbwyntio yn benodol ar welliant addysgol ac yn y cyfarfod byddai'r Pwyllgor yn croesawu'r cyfle i drafod y pwyntiau a ganlyn:


- Mae'r Pwyllgor yn deall bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi cynllun gwella addysg ar ei newydd wedd, Cymwys am Oes. Os bydd y cynllun ar gael, hoffai'r Pwyllgor ei drafod yn y sesiwn ar 14 Mehefin, ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru i Asesiad Polisi Cyflym y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd.
- Byddai'r Pwyllgor hefyd yn hoffi trafod y camau a gymerwyd tuag at gyflawni deg blaenoriaeth addysg Ysgrifennydd y Cabinet.
- Mae'r Pwyllgor yn awyddus i ymgymryd â pheth gwaith craffu ariannol yn ystod y flwyddyn a hoffem gael y cyfle i drafod y dyraniadau diweddaraf o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg. Yn dibynnu ar amseriad y Gyllideb Atodol gyntaf, byddai'r Pwyllgor yn croesawu manylion y dyraniadau diweddaraf yn llinellau gwariant y gyllideb o fewn y Prif Grŵp Gwariant, ac unrhyw newidiadau i'r rhain ers Cyllideb Derfynol 2017-18. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi tabl wedi'i ddiweddarau ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Addysg, gan roi dyraniadau ar lefel llinellau gwariant y gyllideb, gwariant cyfredol yn ystod y flwyddyn ac alldro rhagamcanol.



- Os nad yw'r Gyllideb Atodol wedi cael ei chyhoeddi erbyn y dyddiad a nodwyd ar gyfer y wybodaeth hon, byddai'r pwyllgor yn hoffi cael crynodeb o unrhyw newidiadau i'r blaenoriaethau neu'r allbynnau disgwylidig yn y portffolio. Byddai hyn yn cynnwys unrhyw newidiadau a ddisgwylir i ddyraniadau arfaethedig yn y Gyllideb Atodol Gyntaf a ph'un a ydych yn disgwyl y bydd angen ailflaenoriaethu cyllid o'i gymharu â'r dyraniadau a wnaed yn y gyllideb derfynol neu wneud unrhyw geisiadau am gyllid ychwanegol yn nes ymlaen yn y flwyddyn ariannol.

Rydym yn edrych ymlaen at dderbyn eich papur yn cynnwys y wybodaeth a amlinellir uchod erbyn dydd Gwener 26 Mai.

Yn gywir



Lynne Neagle AC

Cadeirydd

